RHAN II.

BREINIOL GOF-RESTR O'R BRENINODD A'R TYWYSOGION O GYMRU NEU FRUTANIAID, A REOLASANT DROS Y DEYRNAS HON CYN DYFOD Y SAESON, NAC EREILL I'W DI-FEDDIANNU O'U CYFIAWN FRENINIAETH.

Yn gyntaf, Yn dangos pa flwyddyn o Oed y Byd, a pha sawl blwyddyn cyn Geni Crist, y dechreuoedd pob un o honynt reoli, a'r a reoloedd cyn Geni Crist; ac yn ddilynol pa flwyddyn o Oedran Crist y dechreuoedd pob un reoli a'r a reoloedd ar ol Geni Crist. Yn ail, eu henwau yn ol ynol fel ag y rheolasant yn eu cwrs; a pha sawl blwyddyn y rheoloedd pob un o honynt. Y'nghyd âg enwau y Dinasodd, y Trefydd, neu'r lleodd y claddwyd llawer o honynt.

YR Ynys hon a elwid gynt Samothea, oddiwrth Samothes (mal y dywed rhai) ab Japheth, ab Noa, yr hwn a brefwylioedd yma gyntaf, y'nghylch dau cant a deuddeg a deugain o flynyddodd yn ol y diluw. Gelwid hi hefyd Albion, oddiwrth Albion yr hwn oedd gawr, a mab i Neptune, a ddaeth o'r rhan hono o Ffraingc a elwid Belgica, ac a fefydloedd ei hun yma dri chant a phymtheg ar hugain o flynynddodd yn ol y diluw. Ereill a ddywedant ei galw hi Albion, oddiwrth y creigydd gwynion fydd yn fefyll tua Ffraingc.—Gwel. England's Monarchs.

Ac wedi i Albion, ab Neptune wladychu yn y deyrnas hon, fe fu chwech brenin, ac un o'r chwech brenin hyny a elwid Bardus.

Y Bardus hwn a hauoedd trwy holl Europa, y celfyddydau oedd angenrheidiol y prydiau hyny. Canys rhan eppil y mab hynaf i Noa a elwid Japheth ydyw Europa. Eppil Cam, ail fab Noa (yr hwn a felldithiwyd gan ei dad) a arglwyddiaethoedd gyntaf, a hiliogaeth hwnw a lywodraethoedd i orphen y ddwy fil gyntaf o'r byd heb un gyfraith, ac am hyny yr oedd eppil Sem ab Noa yn cadw eu hachau o'r dechreuad, gan wybod mai iddynt hwy yr oedd llywodraethu'r ail ddwy fil,

trwy'r gyfraith, ond eppil Japheth ab Noa (y rhai berchenogoedd dir Brydain, a adawfant eu hachau a'u cyfarwyddyd, oblegid bod iddynt hwy dderbyn ffydd Crift. Ac o'r Bardus hwn a grybwyllwyd am dano, y mae'r beirdd o hyny allan hyd yr awr hon (yn myfg y Brutaniaid) yn cael eu henwau, medd hen awdwyr credadwy: at y beirdd yma yn yr hen amferodd y danfonid i geifio barn gyfion, pan fyddai ymrafaelion rhwng dyfgedigion Athen.

Yn MON yr oedd eu trigfa hwynt, ac y mae yno heddyw drefydd ar eu henwau hwynt. Wrth ryfela yn Ffraingc gydâ'r brenin a'r Ffrangcod eu cymmydogion, yn erbyn Eclwff ac ereill, fe laddwyd y rhan fwyaf o genedlaeth y wlad hon, yna yr aeth y deyrnas yma yn wan, ac a ranwyd yn arglwyddiaethau; ac ar bob arglwyddiaeth yr oedd un amgenach o faintiolaeth nâ'r cyffredin yn rheoli, (yr hwn a elwid yn gawr). A phan oedd y cewri hyn yn llywodraethu ar yr ychydig bobl y wlad, y tirioedd Brutus i'r ynys hon, y'nghylch un cant ar ddeg ac wyth o flynyddodd cyn geni Crift. (Y cewri hyn, medd rhai, oeddent feibion i ferched brenin Ethiopia, a ddaethant yn y llong foel, a mvned yn gapteniaid y wlad a wnaethont). Ond Brutus a gongcwerodd yr ynys hon, gan ladd y cewri hyny, eithr y gweiniaid a gwyr heddychlon naturiol bobl y wlad a ffoifant i'r mynyddodd; mae'n debyg nad oedd anhyfbys iddo, fod y rhai'n yn eppil i Japheth ab Noa.

Gwedi i Brutus a'i genedl o Droya, lef y Groegwyr, a'r Ladingwyr, eppil brenin Latin, a Chorineus ŵyr Antenor a'i bobl, y rhai a ddaethant gydâg ef i'w fefydlu eu hunain yn y wlad, hwy a'u rhoifant eu hunain allan tan yr un enw, fef Brutaniaid. Ond Brutus a ofodoedd ei fab Camber yn frenin ar naturiol bobl y wlad, yn nghyd a rhai o'r lleill.

Eftron genedl a ddywedant, nad oedd y dechreuad hwn ond hudoliaeth a gwag ddychymmyg; i atteb i hyny, y neb na chredo'r dechreu, nac amheued y diwedd, rhag cam-glywed à'u cluftiau, a cham-weled â'u llygaid, i'w gyru ymhellach tros y ffordd: canys nid oes ychwaneg o awdurdod i'w gael, na 'fcrifenadau hynafiaid y wlad.